TGAU CYMRAEG AIL IAITH

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017

Dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad a chrynodeb o'r penderfyniadau ar ddiwygio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w addysgu gyntaf yn 2017

Cyflwyniad

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w Gymeradwyo i'w addysgu gyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn linc yma .

Ym mis Gorffennaf 2016 gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith* (2016)[1], a nododd y gofynion manwl o ran sut y dylai'r cymhwyster diwygiedig gael ei ddylunio a'i asesu. Mae'r gofynion wedi'u llywio gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad, gan y safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr presennol a diweddar a gasglwyd drwy ymarfer ymgysylltu â dysgwyr annibynnol, a thrwy Weithgor o arbenigwyr o gefndiroedd amrywiol yn cynnwys athrawon ac arholwyr presennol.

Yn yr adroddiad hwn crynhown yr ymatebion a gawsom i'n cynigion yn yr ymgynghoriad ac eglurwn sut mae'r rhain wedi llywio'r gofynion manwl a nodwyd yn *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith (2016)*.

Cefndir

Mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2017 yn rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig yng Nghymru fydd CBAC, gan mai ef yw'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau TGAU diwygiedig a ddyluniwyd yn benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Roedd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt yn adlewyrchu gwaith paratoi cynnar a wnaed gan Lywodraeth Cymru, cyn i Cymwysterau Cymru gael ei sefydlu. Buon hefyd yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion o'r adroddiadau a'r adolygiadau canlynol sy'n ymwneud â Chymraeg ail iaith:

- Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Medi 2013)[2];
- Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen (2014)[3];
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru (2015)[4].

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled y wlad er mwyn trafod ac egluro ein cynigion gydag athrawon a rhanddeiliaid eraill â diddordeb. Mae'r farn a fynegwyd yn y cyfarfodydd hynny wedi ein helpu i ddehongli'r

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith
[2] Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
[3] Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen
[4] Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ddod i'r digwyddiadau hyn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad gwnaethom sefydlu Gweithgor er mwyn helpu i'n cynghori ar y gwaith o ddatblygu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y pwnc. Roedd y grŵp yn cynnwys athrawon ac arholwyr TGAU Cymraeg Ail Iaith yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, addysg bellach, Estyn, CBAC, Llywodraeth Cymru ac addysg uwch, gan gynnwys yr Athro Sioned Davies, Cadeirydd y grŵp a luniodd *Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (Medi 2013). Drwy'r Gweithgor bu modd i ni ystyried goblygiadau technegol ac ymarferol rhai o'n cynigion yn fanwl iawn; roedd cyngor y grŵp yn allweddol wrth lywio gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o 100 o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith. O'r rhain, ymatebodd 49 fel unigolion, ymatebodd 17 ar ran sefydliad ac ni nododd 34 sail eu hymateb. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn athrawon, a nododd y gweddill eu bod yn rhieni, yn ddarlithwyr prifysgol, yn fyfyrwyr neu "arall". Roedd y sawl a oedd yn cynrychioli sefydliadau, yn cynrychioli ysgolion, sefydliad llywodraethol neu "arall".

Yn ogystal â'r ymatebion i'r holiadur ar-lein, cawsom 163 o sylwadau drwy e-bost hefyd. Anfonwyd y rhain fel rhan o ymgyrch a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg mewn ymateb i'n hymgynghoriad ac roedd pob e-bost yn union debyg. Yn yr e-byst, gofynnwyd i ni beidio â diwygio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol ond i roi'r gorau iddo'n gyfan gwbl, ynghyd â'r cymhwyster TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) newydd ei ddiwygio, a chyflwyno un cymhwyster TGAU Cymraeg yn eu lle yn seiliedig ar un continwwm iaith. Nid oeddem wedi ymgynghori ar y cynnig hwn ac, am y rhesymau isod, ni fyddai modd i ni gymryd y fath gamau ar hyn o bryd. Ni wnaeth yr ymatebion a gafwyd drwy e-bost ymateb i unrhyw gwestiwn a ofynnwyd yn ein hymgynghoriad felly ni ellid eu cynnwys yn y dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'n cynigion a nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cwricwlwm newydd i Gymru. Fel rhan o'r diwygiadau hyn mae'n anelu at ddileu'r gwahaniaeth presennol rhwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith a chyflwyno un dull o addysgu Cymraeg sy'n seiliedig ar gontinwwm cynnydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'r cwricwlwm newydd . Mae gennym ddiddordeb penodol yn y ffordd o ddiffinio continwwm ar gyfer caffael iaith a meithrin sgiliau iaith a wnaiff helpu i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol, yn ogystal ag asesiad dibynadwy, dilys ac ymarferol. Mae'r gwaith hwn ar gamau cynnar o hyd a hyd nes y caiff ei ddatblygu ymhellach, ni fydd modd nodi gofynion dylunio cymhwyster neu gymwysterau newydd i gefnogi'r camau y bwriedir eu cymryd.

Yn y cyfamser, mae diffygion y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol yn dra hysbys ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i roi'r gorau i'r opsiwn cwrs byr. Yn ystod y cyfnod hwn o newid i gwricwlwm newydd, felly, credwn mai drwy wella dyluniad y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith yn seiliedig ar y cwricwlwm presennol

y gwasanaethir dysgwyr orau. Credwn os na fyddwn yn gweithredu nawr i wneud y gwelliannau y gellir eu gwneud, yna byddem yn methu â gweithredu er budd pennaf dysgwyr. Wrth ddatblygu a chyflwyno'r cymhwyster newydd hwn, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd ac unrhyw gymwysterau sydd eu hangen i'w gefnogi yn llwyddiannus.

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

i. Dylunio'r cymhwyster newydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd (CEFR)[5]

Gwnaethom gynnig y dylid dylunio'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â lefelau cyfeirio cyffredin CEFR. Gwnaethom hefyd nodi'r lefelau CEFR penodol y cynigiwyd y dylai'r cymhwyster newydd gyd-fynd â hwy.

Penderfyniad:

Rydym wedi drafftio gofynion manwl y Meini Prawf Cymeradwyo er mwyn adlewyrchu'r lefelau CEFR. Nid ydym wedi mynd mor bell â'i gwneud yn ofynnol i'r cymhwyster ei hun gyfeirio'n ffurfiol at CEFR wrth iddo gael ei ddatblygu. Byddai gofyniad o'r fath yn gofyn am gytuno ar ddull cwbl newydd o ddatblygu'r cymhwyster y bydd angen cytuno arno, a fyddai'n debygol o arwain at oedi cyn ei gyflwyno.

Byddwn yn ystyried p'un a fyddai ymarfer mapio mwy ffurfiol yn erbyn CEFR, ac o bosibl yn erbyn fframweithiau cyfeirio eraill ar gyfer caffael iaith, yn gam defnyddiol i'w gymryd wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Gallai ymarfer o'r fath hefyd gwmpasu cymwysterau cysylltiedig eraill, gan gynnwys cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith ac Ieithoedd Tramor Modern.

ii. Nodau ac amcanion

Gwnaethom gynnig y dylai nodau'r cymhwyster newydd, ymhlith pethau eraill, ganolbwyntio ar feithrin sgiliau siarad a gwrando dysgwyr a'u gallu i ryngweithio'n hyderus mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau pob dydd. Gwnaethom hefyd gynnig y sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu penodol y dylai'r cymhwyster helpu dysgwyr i'w meithrin.

Penderfyniad:

Rydym wedi mireinio'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo. Er mwyn sicrhau bod y nodau mor benodol â phosibl, rydym wedi symud rhai o'r manylion ynghylch y disgwyliadau penodol ar gyfer gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu i'r adran ar gynnwys gofynnol. Rydym hefyd wedi canolbwyntio'n fwy ar feithrin sgiliau caffael iaith a'r gallu i

[5] Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd

gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell. Rydym hefyd wedi pwysleisio y dylai'r cymhwyster baratoi dysgwyr at ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymuned.

iii. Cynnwys

Gwnaethom gynnig y dylai'r cynnwys i'w asesu yn y cymhwyster newydd adlewyrchu ac adeiladu ar y nodau a'r amcanion arfaethedig ar gyfer y pwnc. Gwnaethom hefyd nodi'r prif ddisgwyliadau o ran sut y dylai'r fanyleb newydd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu ag iaith lafar ac ysgrifenedig a'i defnyddio.

Penderfyniad:

Wrth i ni ddatblygu'r gofynion manwl er mwyn adlewyrchu'r cynigion hyn, rydym wedi mireinio a diwygio ein cynigion.

Rydym wedi ychwanegu cryn fanylder er mwyn egluro hyd a lled yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr allu ei ddangos wrth wrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Ar gyfer pob sgil rydym wedi nodi'r ystod o iaith lafar ac ysgrifenedig y dylai dysgwyr fod yn gallu ymgysylltu â hi a'i chynhyrchu. Rydym wedi mynd ati'n fwriadol i osgoi rhestru mathau penodol o destunau llafar ac ysgrifenedig (fel llythyrau, dyddiaduron ac ati) y mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â hwy ac rydym wedi canolbwyntio yn lle hynny ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y defnyddir iaith yn wahanol at ddibenion gwahanol.

Rydym wedi nodi bod yn rhaid i'r cymhwyster newydd bennu ystod eang o gyd-destunau i'w haddysgu a'u hasesu. Mae hyn yn groes i'r cymhwyster presennol sy'n cyfeirio at feysydd pwnc penodol, â diffiniad cul, sy'n cynyddu'r risg o asesiadau rhagweladwy ac yn annog dysgwyr i ddysgu ymadroddion stoc penodol ar gof.

Cododd llawer o'r ymatebwyr bryderon am nifer yr oriau addysgu a amserlennir ar gyfer y pwnc ar hyn o bryd. Felly, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i fanyleb y cymhwyster newydd nodi iddo gael ei ddylunio i'w gyflwyno dros ddwy flynedd gyda 120 o oriau dysgu dan arweiniad. Fel gyda phob cymhwyster, mater i ysgolion unigol yw penderfynu faint o amser addysgu y maent yn penderfynu ei neilltuo i gyrsiau sy'n arwain at un cymhwyster. Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig ei gwneud yn glir bod y cymhwyster wedi'i ddylunio i ofyn am swm amser addysgu sy'n debyg i gymwysterau TGAU cwrs llawn eraill.

iv. Sgiliau trawsieithu

Gwnaethom gynnig y dylai'r asesiad o sgiliau darllen ac ysgrifennu gynnwys o leiaf un dasg trawsieithu lle bo rhaid i fyfyrwyr ysgrifennu ymateb yn Gymraeg i dasg ysgrifennu a osodwyd yn Saesneg.

Penderfyniad:

Rydym wedi penderfynu bod cwblhau tasg gyfieithu syml o'r Saesneg i'r Gymraeg, lle gofynnir i'r dysgwyr gyfleu union neges ac ystyr testunau bach syml, gan ddefnyddio Cymraeg cywir, yn fwy perthnasol ar y lefel hon.

Credwn fod gofyniad o'r fath yn cydbwyso'r angen i sicrhau bod gofynion y sgil a gaiff ei hasesu yn briodol i'r dysgwyr tra'n sicrhau bod y dysgwyr yn datblygu eu gallu i weithredu mewn dwy iaith.

Gall y math hwn o weithgaredd helpu i ddatblygu geirfa dysgwyr a'u dealltwriaeth o ramadeg a phwysigrwydd cywirdeb wrth gyfleu ystyr.

v. Amcanion asesu

Gwnaethom gynnig y dylai'r amcanion asesu wahanu pedair elfen gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, gyda phob un yn cael yr un pwysiad. Ni fyddai hyn yn golygu bod angen i bob sgil gael ei hasesu ar wahân, ond mae'n golygu bod pob tasg asesu yn dangos yn glir pa amcanion asesu y mae'n eu targedu ac i ba raddau.

Penderfyniad:

Rydym wedi cadw ein cynnig o bedwar amcan asesu gwahanol, er bod y pwysoliad ychydig yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd gennym. Wrth bennu pwysoliad yr amcanion asesu gwnaethom ystyried yr angen i hyrwyddo dull integredig o ddatblygu a chaffael pob sgil, yn ogystal â'r angen i ystyried sut mae'r pwysoliadau yn gysylltiedig â TGAU Cymraeg Iaith. Mae ein pwysoliadau yn gyfystyr â chynyddu'r pwyslais cyffredinol ar sgiliau siarad a gwrando, sydd â phwysoliad o 40% ar hyn o bryd. Maent hefyd yn adlewyrchu ein penderfyniad i beidio ag ailgyflwyno asesiad gwrando annibynnol a osodir yn allanol.

vi. Dulliau asesu

Yn ein hymgynghoriad gwnaethom gynnig y dylai asesiad nas cynhelir drwy arholiad gyfrannu 50% o gyfanswm pwysoliad asesu'r cymhwyster. Gwnaethom hefyd gynnig y dylai 15% o farciau'r cymhwyster gael eu dyrannu i asesiad gwrando a osodir yn allanol, ac y dylai fod yn rhan o'r pwysoliad o 50% ar gyfer asesiad nas cynhelir drwy arholiad.

Penderfyniad

Rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i'r cymhwyster newydd gynnwys asesiad nas cynhelir drwy arholiad, gan gyfrannu 50% o bwysoliad asesu'r cymhwyster, sy'n adlewyrchu'r pwysoliad cyfunol ar gyfer yr amcanion asesu siarad a gwrando. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod peth pryder a dryswch ynghylch y math o asesiad y byddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anfodlon ar y trefniadau asesiad dan reolaeth presennol. I fod yn glir, nid ydym yn disgwyl i asesiad nas cynhelir drwy arholiad y cymhwyster newydd adlewyrchu'r trefniadau asesiad dan reolaeth presennol. Disgwyliwn i'r asesiad hwn asesu sgiliau gwrando a darllen dysgwyr yn uniongyrchol, gan gynnwys eu gallu i ddeall, ymateb a rhyngweithio'n ddigymell gan ddefnyddio iaith lafar.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi:

- Rhaid i asesiadau nas cynhelir drwy arholiad gael eu cynnal ar ddyddiadau penodol a bennwyd gan y corff dyfarnu
- Rhaid i unrhyw asesiadau o sgiliau siarad sicrhau fod dysgwyr yn gorfod cyfathrebu a rhyngweithio ar lafar yn ddigymell
- Rhaid i gynllun a threfniadau gweinyddol yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y canlyniadau.

Rydym wedi penderfynu peidio â'i gwneud yn ofynnol i 15% o farciau'r cymhwyster gael eu dyrannu i asesiad gwrando a osodir yn allanol. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn cawsom ein darbwyllo gan bryderon a godwyd am heriau ymarferol gweinyddu arholiad gwrando i garfan fawr iawn. Cawsom hefyd ein darbwyllo gan yr hyn a ddywedwyd yn y gweithgor, sef ei bod yn bwysig sicrhau bod digon o bwysoliad yn cael ei roi i asesu sgiliau gwrando yng nghyd-destun rhyngweithio.

vii. Strwythur asesu

Gwnaethom gynnig y dylai'r broses o asesu'r cymhwyster newydd fod yn haenog ac yn llinol. Hynny yw, dylai'r holl waith asesu ddigwydd ar ddiwedd y cwrs, naill ai ar yr haen sylfaen neu uwch. Gwnaethom hefyd gynnig, pe bai'r cymhwyster yn haenog, y dylai dysgwyr allu dewis o gymysgedd o elfennau asesu haen uwch a sylfaen.

Penderfyniad

Rydym wedi penderfynu peidio â mabwysiadu'r strwythur asesu a gynigiwyd gennym yn ein hymgynghoriad. Ni fydd y cymhwyster newydd yn haenog a bydd modd i hyd at hanner yr asesiad nas cynhelir drwy arholiad, sef 25% o'r cymhwyster cyffredinol, ddigwydd cyn diwedd y cwrs.

Gwnaethom benderfynu peidio â defnyddio haenau yn sgil yr hyn a wneir gyda'r cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith newydd, nad yw'n haenog ychwaith. Mae hyn yn golygu y gall papurau cwestiwn gael eu dylunio fel bod pob cwestiwn yn hygyrch i'r garfan gyfan ac yn asesu ei hystod gallu lawn.

Rydym wedi caniatáu rhywfaint o asesu cyn diwedd y cwrs mewn ymateb i bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn y gweithgor, sef y gall peth asesu ar gam cynnar yn y cwrs helpu i fagu hyder a chymell dysgwyr i wella yn nes ymlaen yn y cwrs.

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cyfeirio lefel ddisgwyliedig y cymhwyster newydd

Gwnaethom edrych ar y lefelau CEFR canlynol wrth ystyried ble i osod y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd.

Lefel CEFR	Disgrifiad
A2 Defnyddiwr sylfaenol: Elfennol	• Yn gallu deall brawddegau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml sy'n ymwneud â'r meysydd mwyaf uniongyrchol berthnasol (e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol sylfaenol iawn, siopa, daearyddiaeth leol, cyflogaeth). • Yn gallu cyfathrebu mewn tasgau syml ac arferol lle bo angen cyfnewid gwybodaeth am faterion cyfarwydd ac arferol mewn modd syml ac uniongyrchol. • Yn gallu disgrifio agweddau ar ei gefndir, yr amgylchedd cyfagos a materion mewn meysydd ag angen brys mewn modd syml.
B1 Defnyddiwr annibynnol: Canolradd	• Yn gallu deall y prif bwyntiau mewnbwn safonol clir ar faterion cyfarwydd sy'n codi'n rheolaidd yn y gwaith, yn yr ysgol, mewn gweithgareddau hamdden ac ati. • Yn gallu delio â'r mwyafrif o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi mewn maes lle caiff yr iaith ei siarad. • Yn gallu llunio testun syml cysylltiedig ar bynciau sy'n gyfarwydd neu o ddiddordeb personol. • Yn gallu disgrifio profiadau a digwyddiadau, breuddwydion, gobeithion a dyheadau a rhoi rhesymau ac esboniadau cryno dros farn a chynlluniau.
B2 Defnyddiwr annibynnol: Canolradd uwch	• Yn gallu deall prif syniadau testun cymhleth ar bynciau diriaethol a haniaethol, gan gynnwys trafodaethau technegol yn ei faes arbenigedd. • Yn gallu rhyngweithio'n ddigon rhugl a digymell nes bod modd rhyngweithio â siaradwr brodorol heb beri straen i'r naill unigolyn na'r llall. • Yn gallu llunio testun clir a manwl ar ystod eang o bynciau ac esbonio barn ar fater amserol gan gyflwyno manteision ac anfanteision opsiynau amrywiol.

Tabl 1. yn dangos y lefelau o fewn CEFR

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig gwnaethom gynnig y dylai gael ei ddylunio i gyd-fynd â lefelau cyfeirio cyffredin CEFR.

Gwnaethom hefyd gynnig y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni lefel B1 ac anelu at ddatblygu rhai elfennau o lefel B2.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 1a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd gyd-fynd â CEFR?

Fel y dengys Siart 1 isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (70%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 10% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 15% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 5% nad oeddent yn gwybod.

Siart 1. Ymatebion i gwestiwn 1a o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Yn ôl y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr a oedd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, byddai cyfeirio'r cymhwyster at fframwaith fel CEFR yn darparu sylfaen deg i fesur Cymraeg ochr yn ochr ag ieithoedd eraill ac yn helpu i ddarparu sylfaen ar gyfer continwwm.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 1b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni a dangos gallu ieithyddol ar lefelau B1 a B2 CEFR?

Fel y dengys Siart 2 isod, roedd 69% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 18% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 12% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 1% nad oeddent yn gwybod.

Siart 2. Ymatebion i gwestiwn 1b o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Awgrymodd y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf fod y lefel arfaethedig yn cyfateb yn fras i lefel bresennol y cymhwyster.

Dangosodd pwynt a wnaed gan sawl ymatebydd, p'un a oeddent yn cytuno â'r cynnig ai peidio, fod pryder ynghylch yr amser a gaiff ei dreulio yn addysgu Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth a bod angen i'r ystod o allu a gwmpesir gan y cymhwyster ganiatáu am y ffaith bod dysgwyr yn ymwneud â'r Gymraeg i raddau amrywiol o ranbarth i ranbarth ac o ysgol i ysgol.

Ymhlith y rhai a ddywedodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, roedd rhai o'r farn bod B2 yn safon rhy uchelgeisiol, tra bod eraill yn pryderu mai B2 oedd y safon isaf y dylid anelu ati.

Nodau ac amcanion

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig, gwnaethom gynnig y nodau a'r amcanion pwnc canlynol, sef y dylai'r fanyleb:

- ganolbwyntio ar feithrin sgiliau siarad a gwrando dysgwyr
- paratoi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymuned
- canolbwyntio ar feithrin sgiliau a strategaethau iaith er mwyn gallu rhyngweithio'n hyderus mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau pob dydd
- ennyn chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg a mwynhad ohoni
- paratoi ymgeiswyr ar gyfer astudiaethau pellach o'r Gymraeg ac yn Gymraeg.

Gwnaethom hefyd gynnig y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig mewn ffordd sy'n gwneud y canlynol:

1. Annog dysgwyr i fwynhau cyfathrebu yn y Gymraeg ac i ymarfer a datblygu eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r iaith mewn ystod o sefyllfaoedd personol, cymdeithasol a galwedigaethol.

2. Datblygu'r sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu y mae eu hangen ar ddysgwyr i:
   - fynegi eu hunain ar lafar, er mwyn ymateb i sefyllfaoedd pob dydd a chael gwybodaeth gan bobl eraill;
   - darllen a deall ystod o destunau cyffredin, gan gynnwys strwythurau brawddeg cymhleth o fewn maes pwnc cyfarwydd;
   - ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o wahanol ffurfiau ar ddeunydd pwnc cyfarwydd;
   - dewis ac addasu iaith lafar ac ysgrifenedig yn unol â gwahanol sefyllfaoedd a dibenion;
   - datblygu sgiliau dysgu iaith er mwyn eu galluogi i wella eu gafael ar yr iaith ymhellach.

Yn unol â'r nodau hyn, gwnaethom gynnig y dylai'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd gael ei chynllunio i gyflawni'r amcanion dysgu canlynol.

Gwrando: Deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau cyfarwydd, gan gynnwys sgyrsiau, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion a rhaglenni teledu.

Darllen: Deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau ysgrifenedig a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys llythyrau, erthyglau, blogiau, negeseuon e-bost, tudalennau gwe, fforymau ar-lein, deunyddiau marchnata, testunau cyfeirio a thestunau llenyddol.

Siarad: Cyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd sy'n codi'n aml, disgrifio profiadau, rhoi rhesymau ac esboniadau, gwneud cynlluniau, mynegi barn, adrodd plot llyfrau a ffilmiau a disgrifio ymatebion. Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys gofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad o ystyr a chael gwybodaeth.

Ysgrifennu: Ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ar faterion sydd o ddiddordeb personol gan fynegi barn, cyfleu gwybodaeth, disgrifio ac egluro, gan ddefnyddio ystod o ffurfiau ysgrifenedig, gan gynnwys llythyrau, negeseuon e-bost, adroddiadau, erthyglau a thraethodau.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol i ymatebwyr:

Cwestiwn 2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau a deilliannau dysgu pwnc arfaethedig ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith?

Fel y dengys Siart 3 isod, roedd 78% o'r rhai a ymatebodd i gwestiwn 2 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r nodau a deilliannau dysgu pwnc arfaethedig.

Siart 3. Ymatebion i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith.



Thema gyffredin a godwyd gan yr ymatebwyr, p'un a oeddent yn cytuno â'r cynigion ai peidio, oedd yr angen i neilltuo digon o amser addysgu er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd.

Cynnwys pwnc

Gwnaethom gynnig bod yn rhaid i'r cynnwys sy'n ofynnol yn y manylebau TGAU Cymraeg Ail Iaith adlewyrchu nodau ac amcanion y cymhwyster mewn ffordd sy'n hyrwyddo dull integredig o feithrin sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. I'r perwyl hwnnw, gwnaethom gynnig y dylai'r cynnwys a bennir ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd fod yn amodol ar y gofynion canlynol.

Rhaid i'r cynnwys pwnc:

- Fod yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr mewn ystod o gyd-destunau, ac sy'n briodol i'w hoedran a'u diddordebau
- Ac adlewyrchu diwylliant a chymunedau Cymru

Rhaid i'r cynnwys pwnc ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwyr wneud y canlynol:

- deall a defnyddio iaith at amrywiaeth o ddibenion, gydag amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys at ddibenion personol ac addysgol ac at ddibenion sy'n ymwneud â chyflogaeth
- addasu eu hiaith, gan gynnwys anerchiad a chywair anffurfiol a ffurfiol, er mwyn gweddu i wahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd, gan gynnwys sefyllfaoedd cymdeithasol ac addysgol a sefyllfaoedd yn y cartref a'r gweithle.
- deall gwahanol fathau o iaith lafar, gan gynnwys mewnbwn wedi'i recordio gan un neu fwy o siaradwyr ar goedd ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a deunydd wedi'i recordio o ffynonellau dilys a'r cyfryngau, sy'n cwmpasu ystod o sgyrsiau, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion a rhaglenni teledu
- deall gwahanol fathau o iaith ysgrifenedig, eu dehongli a'u dadansoddi'n feirniadol, gan gynnwys cyfathrebu personol perthnasol, gwybodaeth gyhoeddus a thestunau ffeithiol a llenyddol, sy'n briodol i lefel y cymhwyster, o ystod o lythyrau, erthyglau, blogiau, negeseuon e-bost, tudalennau gwe, fforymau ar-lein, adroddiadau, deunyddiau marchnata, testunau cyfeirio a llenyddol at ddibenion esbonio, cyfarwyddo, adrodd, disgrifio, perswadio a rhannu gwybodaeth
- defnyddio gramadeg, cystrawen ac idiom briodol.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith?

Fel y dengys Siart 4, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (73%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r meysydd cynnwys arfaethedig, roedd 12% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 14% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 1% nad oeddent yn gwybod.

Siart 4. Ymatebion i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith.



O'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i ategu eu barn, cododd nifer bryderon am y gofyniad i ddysgwyr "ddeall gwahanol fathau o iaith lafar". Ymddengys fod rhai wedi dehongli hyn fel ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feddu ar afael gadarn ar wahanol acenion a thafodieithoedd rhanbarthol.

Ein bwriad oedd nodi y dylai dysgwyr allu deall iaith a siaredir at ddibenion gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol, yn hytrach nag amrywiaeth o ymadroddion llafar a thafodieithoedd.

Sgiliau trawsieithu

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig, gwnaethom gynnig y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd annog dysgwyr i feithrin sgiliau trawsieithu. Yn benodol, gwnaethom gynnig y dylai'r asesiad o sgiliau darllen ac ysgrifennu gynnwys o leiaf un dasg trawsieithu lle bo rhaid i fyfyrwyr ysgrifennu ymateb yn Gymraeg i dasg ysgrifennu a osodwyd yn Saesneg.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid cynnwys sgiliau trawsieithu yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig?

Fel y dengys Siart 5, roedd dros hanner o'r ymatebwyr (52%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r meysydd cynnwys arfaethedig, roedd 34% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 11% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 1% nad oeddent yn gwybod.

Siart 5. Ymatebion i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Fel mae'r siart uchod yn ei awgrymu, rhannodd y cynnig hwn ymatebwyr. Roedd y rhai a oedd yn cytuno'n â'r cynnig yn dueddol o dynnu sylw at y ffaith bod angen y sgiliau hyn i fyw mewn cymdeithas ddwyieithog, fel y dengys y sylw canlynol:

"Sgil allweddol yn y byd modern - bydd sgiliau trawsieithu syml yn helpu dysgwyr ac yn bwysig yn y gweithle / coleg wrth barhau i ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol."

Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig yn dueddol o fynegi'r farn bod y sgiliau hyn yn anodd i'w rhoi ar waith ac y byddent yn rhy heriol i ddysgwyr ar y lefel hon, fel y dangoswyd gan y dyfyniad canlynol:

"Sgil anodd iawn a fydd yn eithaf heriol i ddisgyblion ail iaith."

Ar sail yr amrywiaeth o sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cynnig hwn, a llawer ohonynt yn gadarn iawn, ymddengys fod gwahaniaeth barn sylweddol ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â sgiliau trawsieithu.

Amcanion asesu a phwysoliadau

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig, gwnaethom gynnig yr amcanion asesu a phwysoliadau canlynol:

Amcan	Gofynion	**Pwysoliad**
AA1	Gwrando – deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau cyfarwydd	25%
AA2	Darllen – deall ac ymateb i amrywiaeth o iaith ysgrifenedig ynglŷn â materion cyfoes, mynegi agweddau neu farn benodol a disgrifio digwyddiadau, teimladau a hoffterau	25%
AA3	Siarad – cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol	25%
AA4	Ysgrifennu – cyfathrebu'n ysgrifenedig ynglŷn â materion o ddiddordeb personol gan fynegi barn a chyfleu disgrifiadau ac esboniadau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd	25%

Tabl 2. yn dangos yr amcanion asesu a phwysoliadau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig.

Asesu: y cydbwysedd rhwng asesu drwy arholiadau ac asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau.

Gwnaethom gynnig y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Mewn perthynas â'r strwythur asesu, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 5a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y bydd asesiadau nas cynhelir drwy arholiad yn cyfrannu at 50% o gyfanswm pwysoliad asesu'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig?

Fel y dengys Siart 6 isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (69%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r meysydd cynnwys arfaethedig, roedd 23% yn anghytuno ac nid oedd 8% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 6. Ymatebion i gwestiwn 5a o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Roedd llawer o sylwadau'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cyfleu anfodlonrwydd â'r tasgau a'r trefniadau presennol ar gyfer asesiadau dan reolaeth, a nodwyd nad oeddent o blaid asesiad dilys, eu bod yn annog ymatebion artiffisial wedi'u sgriptio, ac nad oeddent yn sicrhau bod pob canolfan yn gweithredu'n deg a chyson.

Mewn perthynas â'r strwythur asesu, gwnaethom ofyn y canlynol:

5b. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai o leiaf 15% o'r marciau ar gyfer asesu'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd gael eu dyrannu i arholiad gwrando a osodir yn allanol?

Fel y dengys Siart 7, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (53%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 28% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 18% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 1% nad oeddent yn gwybod.

Siart 7. Ymatebion i gwestiwn 5b o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Pwysleisiodd sylwadau gan y rhai sydd o blaid y cynnig hwn bwysigrwydd meithrin ac ymarfer y sgil o wrando, cyfeiriodd rhai at brawf gwrando a osodir yn allanol fel amcan ac felly ddull tecach o bosibl nag asesiad dan reolaeth. Roedd y rhai a oedd yn llai cefnogol yn dueddol o dynnu sylw at ddiffygion yr ymdrechion blaenorol i asesu gwrando yn y fath fodd a heriau ymarferol cynnal prawf gwrando llwyddiannus gyda grwpiau blwyddyn mawr iawn.

Haenu

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig, cynigiwn y dylai fod yn haenog.

O ran p'un a ddylai'r cymhwyster fod yn haenog ai peidio gwnaethom ofyn:

6a. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig fod yn gymhwyster haenog?

Fel y dengys Siart 8, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (79%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 15% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig ac nid oedd 6% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 8. Ymatebion i gwestiwn 6a o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



O ran p'un a ddylid caniatáu mynediad haenau cymysg gwnaethom ofyn:

6b. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid caniatáu mynediad haenau cymysg yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd?

Fel y dengys Siart 9, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (71%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnwys arfaethedig, roedd 16% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nid oedd 11% yn cytuno nac yn anghytuno a nododd 3% nad oeddent yn gwybod.

Siart 9. Ymatebion i gwestiwn 6b o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Roedd sylwadau'r rhai a oedd o blaid haenau asesu yn dueddol o gyfeirio at yr angen i sicrhau bod y cymhwyster yn hygyrch i'r ystod lawn o allu. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y byddai haenu a mynediad haenau cymysg yn "fwy teg i blant llai abl".

Defnyddiodd rhai o'r rheini a oedd yn cytuno y sylwadau i amodi eu cefnogaeth drwy ychwanegu amod y dylid disgwyl i'r mwyafrif o'r garfan sefyll y papur uwch, ac mae'r dyfyniad canlynol yn enghraifft o hyn:

> *"… Credaf yn gryf y dylai fod yn orfodol i 80% o'r garfan sefyll yr haen uwch; os na wneir hynny, bydd athrawon yn anelu at yr haen sylfaen ar gyfer y mwyafrif a fydd yn arwain at afael gwael ar yr iaith. Dylid cynnig dewis amgen lle mae'r mwyafrif o'r garfan yn sefyll yr haen uwch."*

O'r rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynigion, dangosodd y sylwadau fod pryder na fydd dysgwyr yn cael eu hysgogi efallai i anelu at y radd uchaf bosibl. Pwynt arall a wnaed oedd, mewn cymhwyster iaith, fod safon yr asesu yn aml yn cael ei phennu gan ansawdd yr ymateb yn hytrach nag 'anhawster' y cwestiwn. Roedd eraill o'r farn na fyddai dull haenog yn cyd-fynd â'r cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith newydd, nac ychwaith gyda'r syniad o ddatblygu un dull asesu yn seiliedig ar gontinwwm.

Strwythur asesu

7. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig fod yn llinol?

Fel y dengys Siart 10, roedd 46% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r meysydd cynnwys arfaethedig, roedd 35% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac nid oedd 18% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 10. Ymatebion i gwestiwn 7 o'r ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith



Fel y dengys y siart uchod, roedd yr ymatebwyr yn eithaf rhanedig ar y cwestiwn hwn. Adlewyrchir hyn yn y sylwadau. O'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn, gwelwyd rhai ohonynt yn dadlau o blaid cadw'r model cwbl unedol presennol. Rhoddodd eraill ymatebion llai eglur a oedd yn awgrymu eu bod o blaid llai o asesu drwy gydol y cwrs na'r model presennol, ond gan barhau i roi cyfle i ddysgwyr gwblhau rhywfaint o'u hasesiad cyn diwedd y cwrs. Dywedodd ymatebwyr:

“Mae model unedig yn gweithio'n dda ar hyn o bryd. Rwy'n deall bod y naill sgil yn gwella'r llall ond mae astudio unedau yn y flwyddyn gyntaf yn rhoi hyder i'r disgyblion yn hytrach na gadael popeth tan ddiwedd y cwrs.”

“Deallwn y ddadl o blaid asesiad crynodol, ond credwn fod y pwysau ar blant adeg arholiadau'r haf yn hynod ac y dylid ystyried caniatáu i ddisgyblion sefyll nifer gyfyngedig o unedau yn yr lonawr blaenorol.”

"Er fy mod yn cytuno y gall rhyngberthynas a datblygiad pob sgil wella'r naill a'r llall, rhaid ystyried elfennau dysgu ac addysgu. Os na fydd dysgwyr yn cwblhau unrhyw sgil tan ddiwedd y cwrs, mae'n rhoi llawer mwy o bwysau ar ddysgwyr i gyflawni mewn asesiadau (yn enwedig pan fo gan bob pwnc arall ei ofynion ei hun)."

"Mae dysgu iaith yn gofyn am gryn hyder. Mae'r cyfle i fyfyrwyr sefyll un modiwl a theimlo'n hyderus yn bwysig."

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, soniodd y rhai a gwblhaodd yr ymgynghoriad ar-lein drwyddi draw fod angen bod yn glir am yr amser addysgu sydd ei angen i gyflwyno'r cymhwyster newydd.

Awgrymwyd hefyd fod angen mwy o athrawon sydd wedi'u hyfforddi i addysgu Cymraeg, hyfforddiant HMS a drefnir yn ganolog ac a gyflwynir yn lleol a digwyddiadau DPP er mwyn cyflwyno'r fanyleb newydd, adnoddau dysgu ac addysgu ar-lein i ategu'r cwrs newydd, deunyddiau asesu enghreifftiol a thasgau er mwyn ymarfer a meithrin sgiliau yn yr ystafell ddosbarth.

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig, nodwyd yr effeithiau posibl canlynol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Nododd un ymatebydd: "Bydd arholiad llinol, heb ailadrodd mynych, ac asesiad sy'n dangos defnydd gwirioneddol o'r iaith yn rhoi'r rheini ag unrhyw fath o rwystr dysgu o dan anfantais."

Nododd un arall, o ran y cynnig trawsieithu, y gallai dysgwyr nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf fod o dan anfantais os gofynnir iddynt gyflawni tasg lle mae angen gweithredu yn y ddwy iaith.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org